

# Prosiect Peilot Cadwyni Cyflenwi Bwyd a Diod Cydnerth

Cymru Connects

Mae'r sector bwyd a diod yng Nghymru yn wynebu heriau digynsail o ran costau yn gadwyn gyflenwi, a rhagwelir y bydd hynny'n gwaethygu dros y misoedd nesaf.

Mae Cymru Connect yn adnodd platfform caffael peilot sydd â'r nod o gefnogi cynhyrchwyr i ddatblygu cadwyni cyflenwi mwy effeithlon a chadarn.

Mae'r llwyfan yn cael ei gynnal gan Canopy ac mae'n cynnwys gwybodaeth wedi'i dilysu am gyflenwyr. Mae'r prosiect wedi cael cyllid gan Gronfa Her Adfer Covid.

**Manteision cymryd rhan fel cyflenwr:**

- Cyfle i fasnachu gyda grŵp dethol o gynhyrchwyr bwyd a diod o fewn y rhanbarth
- Mae gwybodaeth cyfranogwyr yn cael ei chasglu o'r ffynhonnell, ei hasesu, a'i chymeradwyo gan ddileu'r costau gweinyddol a'r baich o gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy yn unigol, wrth leihau risg
- Annog "marchnad fewnol" o brynu oddi wrth ei gilydd, gan hyrwyddo cadwyni cyflenwi byrrach
- Hyfforddiant system lawn yn cael ei ddarparu i'r cynhyrchwyr a chyfranogwyr sy'n cymryd rhan am ddim
- Peiriant chwilio cynhwysfawr sy'n caniatáu i gynhyrchwyr ddod o hyd i gyflenwyr sy'n bodloni gofynion penodol, a masnachu â nhw
- Gall cynhyrchwyr fod yn brynwyr nwyddau neu wasanaethau ac yn gyflenwyr i gynhyrchwyr eraill

Rydym yn chwilio am gyflenwyr fel chi i weithio gyda ni ar y cynllun peilot hwn a helpu i fynd i'r afael â'r heriau presennol o ran y gadwyn gyflenwi sy'n wynebu cynhyrchwyr o Gymru.

Os hoffech chi fod yn rhan o'r prosiect cyffrous hwn, atebwch drwy ddilyn y ddolen hon.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

bicinnovation